# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2013** |
| Amser: | **09:30 – 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_12_12_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, Gweinidog Tai ac Adfywio**<br>**Ceri Breeze, Pennaeth Y Gyfarwyddiaeth Dai, Llywodraeth Cymru**<br>**Kath Palmer, Llywodraeth Cymru**<br>**Alyn Williams, Llywodraeth Cymru**<br>**Neil Buffin, Llywodraeth Cymru**<br>**John Davies, Legal Services, Welsh Government**<br>**Patricia Gavigan, Llywodraeth Cymru**<br>**Geoff Marlow, Llywodraeth Cymru**<br>**Margaret Frith, Llywodraeth Cymru**<br>**Chrishan Kamalan, Llywodraeth Cymru** |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Blaenraglen waith y Pwyllgor

1.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

## 2 Trafod yr adroddiad drafft: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Adroddiad Blynyddol 2012/13

2.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft.

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

3.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas a Janet Finch-Saunders.

## 4 Bil Tai (Cymru) – Cyfnod 1 – ystyried yr egwyddorion cyffredinol

4.1 Cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r hyn a ganlyn:

- gwybodaeth am y gwahaniaethau rhwng y cynllun cofrestru a thrwyddedu cyfredol ar gyfer y sector rhentu preifat yn yr Alban a'r cynllun arfaethedig yng Nghymru y darperir ar ei gyfer yn y Bil;

- nodyn ar safonau diogelwch trydanol ar gyfer y sector rhentu preifat i'w cynnwys yn y Cod Ymarfer y darperir ar ei gyfer yn adran 28;

- copi o'r adroddiad gan Brifysgol Caerdydd (a oedd yn darparu tystiolaeth y dylai'r cyfnod o amser yr ystyrir bod person o dan fygythiad o ddigartrefedd gael ei gynyddu i 56 diwrnod);

- nodyn ar sut y byddai'r gost o orfodi'r cynllun cofrestru a thrwyddedu arfaethedig yn cael ei thalu, yn sgîl y dyfarniad gan y Llys Apêl ar achos Hemming ac eraill yn erbyn Cyngor

Dinas San Steffan;

- eglurder ar ystyr 'hyglwyf' yn adran 55(1)(j) mewn perthynas â phobl sydd wedi bwrw dedfryd o garchar;
- eglurder ar pam nad yw'r categori ar gyfer angen blaenoriaethol yn adran 55(1)(c)(i) yn cyfeirio at salwch meddwl, o ystyried ei fod wedi'i gynnwys yn y categorïau sydd eisoes yn bodoli a nodir yn Neddf Tai 1996;
- eglurder ar y gyfundrefn reoleiddio ac arolygu bresennol ar gyfer hostelau digartrefedd;
- eglurder ar ystyr cyfreithiol ac/neu effaith y term *'er enghraifft'* yn adran 55(1)(c)(i);
- nodyn ar drefniadau dwyochrog rhwng awdurdodau lleol ar gyfer rhoi llety i bobl ddigartref; a
- dadansoddiad fesul awdurdod lleol o'r terfyn benthyca sy'n ymwneud â thai i gynnwys benthyca sydd eisoes yn bodoli a'r ddyled newydd i ariannu'r cam o adael y cynllun cymhorthdal cyfrif refeniw tai.

4.3 Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth gyfreithiol am y diffiniad o fod yn hyglwyf.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Papurau i'w nodi.